# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 11 Hydref 2011**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(21)v4

**1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog (60 munud)**

[Gweld y cwestiynau]

**Cwestiwn Brys**
**Aled Roberts (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch Prifysgol Cymru, yn sgil datblygiadau diweddar. EAQ(4)0052(ESK)

**2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**
[Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes]

**3. Datganiad gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth: Partneriaeth Tai Cymru (45 munud)**

**4. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Twf Swyddi Cymru (45 munud)**

**5. Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Adroddiad Blynyddol y Prif Swyddog Meddygol (45 munud)**

**6. Dadl ar Gyfrifoldeb Rhianta Corfforaethol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (60 munud)**

**NDM4819 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1) Yn nodi bod gwella deilliannau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn her barhaus; a

2) Yn cydnabod pwysigrwydd rhianta corfforaethol i wella cyfleoedd bywyd plant sy'n derbyn gofal.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau brys i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol fod y Wladwriaeth, yn rhy aml, yn cael effaith negyddol ar ganlyniadau bywyd plant unwaith y byddant mewn gofal.

Gellir gweld canfyddiadau'r Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

http://www.centreforsocialjustice.org.uk/default.asp?pageRef=316

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau brys i fynd i'r afael â'r diffygion mewn darparu eiriolaeth i blant sy'n derbyn gofal, fel yr amlinellir yn Adroddiad Blynyddol 2010/11 Comisiynydd Plant Cymru.

Gellir gweld Adroddiad Blynyddol 2010/11 Comisiynydd Plant Cymru drwy ddilyn y linc a ganlyn:

http://www.complantcymru.org.uk/cy/rhestr-cyhoeddiadau/

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio dichonoldeb cyflwyno Bwrsariaeth Cenedlaethol, sy'n mynnu bod awdurdodau lleol yn cefnogi plant sy'n derbyn gofal sy'n mynd ymlaen i Addysg Uwch.

**Gwelliant 4 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu mai dim ond 1 plentyn o bob 10 sy'n gadael gofal sy'n cael 5 TGAU gradd A* i C.

**Gwelliant 5 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i dalu costau byw a ffïoedd dysgu llawn plant oedd yn derbyn gofal sy'n fyfyrwyr mewn prifysgol.

**Gwelliant 6 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymestyn y ddyletswydd gofal i 21 oed, pa un a yw'r plentyn yn aros mewn addysg ai peidio, er mwyn gwella cyfleoedd bywyd plant sy'n derbyn gofal.

**Cyfnod pleidleisio**

Bydd y Cynulliad yn cwrdd eto yn y Cyfarfod Llawn am 13:30 Dydd Mercher, 12 Hydref 2011